

Hwyaid Lledaenu

#hwyaidlledaenu

Gwefan newyddion cymdeithasol ydy Reddit, ac mae wedi dod yn brif ysgogydd traffig erthyglau newyddion, delweddau, fideos a phostiadau blogio. Mae'r platfform yn cynnig cyfle gwych i ymchwilyr ymgysylltu â sail defnyddwyr o 250 miliwn o bobl, mewn is-adrannau penodol sy'n berthnasol i bwnc.

Ambell air i gall ar gyfer Reddit

Mae gan bostiadau 'garma', lle mae cynnwys da yn cael ei 'uwchbleidleisio' a'i ddarllen yn fwy helaeth, a chynnwys gwael yn cael ei 'lawrbleidleisio' a dydy'r cyhoedd ddim yn gallu ei weld

Ymgysylltwch â'r 'is-reddits' iawn – er enghraifft, mae gan 'r/gwyddoniaeth' fwy nag 11 miliwn o danysgrifwyr



Dilynwch y tueddiadau o ran cynnwys, er enghraifft "AMA" = Ask Me Anything

Peidiwch â bod y hollol amlwg eich bod chi'n hybu'ch hunan – os nad ydy'r cynnwys yn bachu sylw'n hollol naturiol, fe fyddwch chi'n cael eich beirniadu

Mae gan bob is-reddit ei reolau ei hun y mae ei gymedrolwr yn eu gosod - dilynwch y rhain neu fe allai'ch post gael ei ddileu

Treuliwch amser yn cadw llygad ar y safle ac yn dysgu beth sy'n gwneud post llwyddiannus cyn cymryd eich cam cyntaf

I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:

✉ ymchwilechydagofal@wales.nhs.uk

☎ 02920 230 457

🐦 @YmchwilCymru

🌐 ymchwilechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil



Peidiwch â gadael eich ymchwilar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwilar wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwilar...

Meddyliwch am eich cynulleidfa.
Pwy ydyn nhw a beth sydd ei
angen arnyn nhw?



Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaedd i ddysgu am eich ymchwilar.



Beth ydy effaith eich ymchwilar i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa - dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.



Mae cynulleidfaedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwilar?

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwilar yn ymchwiliachydagofalcymru.
llyw.cymru

